Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

22 Tachwedd 2019

Annwyl gyfaill

Ymgynghoriad ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Mae rhagor o fanylion am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar gael ar dudalen y Bil.

Cylch gorchwyl

Wrth graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil yng Nghyfnod 1, gwahoddir y Pwyllgor i drafod y cylch gorchwyl a ganlyn:

Trafod:

- egwyddorion cyffredinol y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodir. Wrth ffurfio barn ar y mater hwn, efallai y byddwch am ystyried Rhannau unigol o'r Bil:
  - Rhan 1 – Etholiadau
  - Rhan 2 – Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol
  - Rhan 3 – Hybu mynediad at Lywodraeth Leol

    - Rhan 4 – Gweithrediaethau, aelodau, swyddogion a phwyllgorau awdurdodau lleol
    - Rhan 5 – Cydweithio gan brif gynghorau
    - Rhan 6 – Perfformiad prif gynghorau a'u llywodraethu
    - Rhan 7 – Uno ac ailstrwythuro prif ardaloedd
    - Rhan 8 – Cyllid llywodraeth leol
    - Rhan 9 – Darpariaethau amrywiol
- unrhyw rwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil ac a yw'r Bil yn eu hystyried,
- priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y'i nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol),
- a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil,
- goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol).

Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo â'i waith o ystyried y Bil. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddefnyddio'r cylch gorchwyl uchod i lunio eich ymateb.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **dydd Gwener 3 Ionawr 2020**.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Canllawiau

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y canllawiau i'r rhai sy'n darparu tystiolaeth ar gyfer pwyllgorau.

Polisi dwyieithrwydd

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn y naill neu'r llall o'n hieithoedd swyddogol, Cymraeg a Saesneg, neu'r ddwy. Os na chyflwynir gwybodaeth yn ddwyieithog, ni fydd yn cael ei chyfieithu, a chaiff ei chyhoeddi yn yr iaith y cafodd ei chyflwyno ynddi yn unig. Disgwyliwn i sefydliadau weithredu eu safonau a'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

Datgelu gwybodaeth

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth ar http://www.cynulliad.cymru/cy/help/privacy/Pages/help-inquiry-privacy.aspx. Dylech sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Manylion cyswllt

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:

Clerc y Pwyllgor

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1NA

E-bost: SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Rhif ffôn: 0300 200 6565

Yn gywir,



John Griffiths AC

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau